# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Ail-fodelu Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg Gwynedd

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Dros y blynyddoedd yr ydym wedi lleihau'r gwasanaeth cynhwysiad. Nôl yn 2012 bu i ni fabwysiadu strategaeth gynhwysiad uchelgeisiol arweiniodd at gau dwy uned gyfeirio, un ym Mangor a'r llall yn Nolgellau a chau ysgol arbennig Coed Menai.

Yr ydym wedi ceisio modelau gwahanol i ddarparu ar gyfer y plant na ellir ei cynhwyso mewn ysgolion, gyda chanlyniadau cymysg effaith hir dymor, ac ystod y ddarpariaeth ddim yn

ddigonol i diwallu'r angen. Yn fwy diweddar bu i ni geisio model hybiau lle bo dwy ysgol yn darparu yn hytrach nag uned ganolog, eto doedd hwn ddim yn fodel effeithiol.

Yn ogystal yn dilyn y pandemig mae ymddygiad ac anghenion ein disgyblion wedi dwysau ac mae angen i ni fod yn cryfhau'r ddarpariaeth a chefnogaeth sydd ar gael.

Arolygwyd Gwasanaethau Addysg Gwynedd gan Estyn sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, Yn sgil yr arolygiad amlygwyd yr angen i gryfhau'r ddarpariaeth er ymateb i anghenion disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ynghyd â sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.

O ganlyniad rydym wedi cynllunio opsiynau ar gyfer newid yn y ddarpariaeth, ac fe gyflwynwyd y rhain yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor ym mis Ionawr 2025 a Mawrth 2025. Bydd ymgynghori ynglŷn â Strategaeth ar gyfer Cynhwysiad a fydd yn rhoi ffocws newydd ar leihau Gwaharddiadau gyda Phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill yn rhan allweddol o'r gwaith. Mae hyn wedi ein arwain at agor Ganolfan Addysg Cofrestredig i'r nifer fychan o ddisgyblion sydd yn profi anawsterau ymddygiad sydd uwch ben yr hyn gall ysgol ymdopi, creu gwasanaeth lloeren ac ymestyn cefnogaeth tîm ymestyn allan ysgolion.

Mae'r newidiadau sy'n cael eu hystyried yn dilyn Argymhellion Adroddiad Estyn (Mehefin 2023) ac Adroddiad Caroline Rees (Tachwedd 2023), sef Adolygiad annibynnol o'r Gwasanaeth gomisiynwyd mewn ymateb i argymhellion Estyn.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Ffion Edwards Ellis - Pennaeth Cynorthwyol/Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Cynhwysiad
Ellen Rowlands, Rheolwr Cynhwysiad

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Dechreuodd y gwaith yn Tachwedd 2023 pan gomisiynwyd adolygiad annibynnol o'r darpariaeth cynhwysiad yng Ngwynedd. Bu ymgynghori â phobl ifanc fel rhan o'r adolygiad annibynnol
Sefydlwyd Bwrdd Prosiect yn Mawrth 2024 a bu ymgynghori â rhanddeiliaid.

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Ysgolion; plant a phobl ifanc; rhieni/gofalwyr y plant a phobl ifanc |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Fel rhan o adolygiad annibynnol o'r darpariaeth cynhwysiad (Rhagfyr 2023) cafwyd arolwg o farn disgyblion a oedd yn derbyn y gwasanaeth. Bu adborth disgyblion yn gadarnhaol am eu profiadau. Roedd pob un yn awyddus i ni wybod eu bod yn teimlo eu bod bellach yn wahanol pobl i'r rhai a dderbyniwyd i'r ganolfan ar y cychwyn ac wedi aeddfedu'n sylweddol mewn cyfnod byr. Cafwyd hefyd arolwg o farn rhieni/gofalwyr a oedd yn derbyn y gwasanaeth. Mewn sgyrsiau gyda rhieni yn ystod yr adolygiad, fe nodwyd gan un fod yr hwb wedi trawsnewid agweddau'r person ifanc gan greu gobaith am ddyfodol gwell. Nododd rhiant maeth fod anghenion y plentyn mor ddwys, ni allai ysgol prif ffrwd na hwb o'r fath ddiwallu anghenion y plentyn, a bydd angen adolygu'r ddarpariaeth yn llwyr yn fuan iawn. Soniodd pob rhiant a holwyd fod y staff yn yr hybiau wedi gwneud cyfraniad sylweddol iawn i helpu adfer sefyllfa'r bobl ifanc, ac wedi creu ymddiriedaeth ddofn. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Yr angen i ail edrych ar y model bresennol a addasu er sicrhau ein bod yn cwrdd a anawsterau oedd rhai yn brofi o ganlyniad i faterion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Yr angen i gryfhau'r ddarpariaeth cynhwysiad er ymateb i anghenion disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. Bwriad wrth ailedrych ar y darpariaeth yw sicrhau fod ein darpariaeth yn:

- Diwallu anghenion plant a phobl ifanc
- Adeiladu ar arfer da
- Ymateb i angen sy'n cynyddu

Adroddiad Estyn – Mehefin 2023
Adolygiad annibynnol o'r Gwasanaeth Tachwedd 2023
Data gwaharddiadau – Cyfredol
Data presenoldeb – Cyfredol
Nifer o ddisgyblion sydd yn dad gofrestru – Cyfredol

| |
|---|
| Cynnydd amlwg yn ddwyster anghenion nifer o ddisgyblion |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Ymgynghori gyda rhan ddeiliad ar Strategaeth  newydd i gyd fynd gyda'r model Cynhwysiad newydd, |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod.  Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn?  Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd?  Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n derbyn cefnogaeth unai yn yr ysgol neu yn y Ganolfan Addysg  i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd y Ganolfan ar Gwasanaeth drwy<br><br>• Ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno<br>• Annog ymddygiad cadarnhaol ymysg ein pobl ifanc<br>• Atal i ddad wneud unrhyw agweddau negyddol<br>• Annog ein disgyblion i fod yn gynhwysol |
| **Anabledd** | Positif<br><br><br><br>Negyddol | Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad yn cefnogi nifer o ddisgyblion ag ACEY  a bydd cryfhau'r ddarpariaeth yn gwella canlyniadau i'r disgyblion yma.<br><br>I rai ddisgyblion ag ACEY, anabledd neu ddisgyblion bregus, bydd o bosib yn cymryd amser i ymgyfarwyddo ac unrhyw newid i drefniadau neu leoliad newydd. Bydd cefnogaeth pontio ar gael i ddisgyblion deimlo'n gyfforddus yn eu amgylchedd. |
| **Rhyw** | Dim | Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Oedran** | Positif | Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad yn cefnogi disgyblion Gwynedd. Mae'r adolygiad yn roi ffocws ar les plant a phobl ifanc Gwynedd ac yn benodol oedran bl10-11.<br><br>Trwy hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu mae'r cynigion yn cyd-fynd ag amcanion llesiant Cyngor Gwynedd, *Gwynedd Yfory*, "Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc" a *Gwynedd Ofalgar*, "Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles" a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).<br><br>I'r plant a phobl ifanc ddisgyblion ag ADY, mae'r cynigion yn cyfrannu at ddyletswyddau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018). |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, , crefydd neu gred, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Mae'r gwasanaeth cynhwysiad ar gael i cefnogi rhieni ifanc (oedran Ysgol). Mae gwell deilliannau a chyfleoedd mewn bywyd a ddaw o ymgysylltu gyda addysg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Cefnogaeth a Gwasanaeth o fewn cyfundrefn Addysg Gwynedd er sicrhau Cynllun ein bod yn cynorthwyo ein disgyblion i ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi lleol. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad yn cefnogi nifer uchel o blant a'u teuluoedd nad ydynt yn ymgysylltu'n dda gyda ysgol / presenoldeb ysgol is na'r cyfartaledd. Mae canran uchel o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim (PYD). Mae gwell deilliannau a chyfleoedd mewn bywyd a ddaw o ymgysylltu gyda addysg. Daw lleihad yn y niferoedd sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan gynnig llwybrau ar gyfer addysg neu hyfforddiant bellach, neu fyd gwaith.<br><br>Mi fydd y gefnogaeth yn ymestyn allan i fod yn un lloeren yn ôl yr angen . Fydd hyn yn lleihau yr angen i deithio i un Canolfan ac ar gael yn ôl yr angen. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Mae'r Gwasanaeth yn adnabod sicrhau tegwch i bawb fel blaenoriaeth ynghyd a dod i'r afael â thlodi. Y ddau flaenoriaeth yma yn perthyn yn agos I'w gilydd oherwydd mae pobl sydd a rhai nodweddion cydraddoldeb penodol yn dueddol o fod yn ystadegol dlotach na'r rhai sydd ddim.<br><br>Yn fras, mi fyddwn yn<br>• Lleihau, rhwystrau ar gyfer pobl a nodweddion gwarchodedig gwahanol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Trin pob person ifanc gyda'r parch ac urddas, beth bynnag eu cefndir, angen neu nodweddion cydraddoldeb.<br>• Darparu gwasanaethau mewn modd sy'n gyson ac yn deg, gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn gweithredu'n ôl canllawiau ymarfer da ym maes cydraddoldeb.<br>• Anelu i ddarparu gwybodaeth sicrhau mynediad at Gymorth, mewn ffordd syml, ddealladwy ac mewn dulliau perthnasol i ofynion pobl yn ôl eu hangen.<br>• Anelu i sicrhau bod mynediad at y cymorth ar gael yn iaith o ddewis yr unigolyn, boed hynny'n Gymraeg, Saesneg neu Iaith Arwyddion Prydeinig. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc yw'r nod. Ein huchelgais yw sicrhau fod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael eu trin yn ôl eu anghenion eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Yr effaith ar Nodweddion Gwarchodedig a'r Gymraeg yw y byddai'r cynnig yn gwella'r canlyniadau i bob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Yn unol a Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a pholisi Iaith y Cyngor byddwn yn sicrhau Cynllun er cynorthwyo ein Pobl Ifanc i ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi lleol.

Yn annog unigolion a chyrff eraill i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu hefo ni.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae pobl ifanc yn dioddef o ganlyniad anghydraddoldeb economaidd yn amlwg ymhlith y grwp targed O ganlyniad mae cynyddu a gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn lleddfu anfantais economaidd –gymdeithasol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Positif , drwy
Rhoi'r gefnogaeth orau posib i'n pobl ifanc sydd yn profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol a chymdeithasol i dderbyn

- Cefnogaeth "*bespoke*"
- Cyfle i lwyddo yn addysgol ( cael yr un cyfleodd a'i cyfoedion )
- Gwella deilliannau a chyfleoedd mewn bywyd a ddaw o ymgysylltu gyda addysg.
- Lleihad yn y niferoedd sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan gynnig llwybrau ar gyfer addysg neu hyfforddiant bellach, neu fyd gwaith.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Monitro'r ddarpariaeth drwy fesur canlyniadau<br>Monitro data gwaharddiadau ysgolion<br>Fframwaith Arolygu Estyn |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol - nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd yr Adran Addysg yn monitro effaith y ddarpariaeth yn ofalus ac yn adrodd fel rhan o drefniadau cyfarfodydd herio a Pwyllgor Craffu. |